Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 400 (Cy. 80)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

# Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("Gorchymyn 2012") a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ("Gorchymyn 2016") mewn perthynas ag ymgynghori cyn gwneud cais ac ymgynghori cyn rhoi caniatâd cynllunio.

Mae erthygl 2 yn diwygio'r tabl yn Atodlen 4 i Orchymyn 2012 (ymgyngoriadau cyn rhoi caniatâd cynllunio) i amnewid y categori o ddatblygiad sydd mewn perygl o lifogydd y mae rhaid ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru yn ei gylch (erthygl 2(2) a (3)).

Mae erthygl 3 yn diwygio'r tabl yn Atodlen 5 i Orchymyn 2016 (dyletswydd i ymgynghori cyn rhoi caniatâd cynllunio) i amnewid y categori o ddatblygiad sydd mewn perygl o lifogydd y mae rhaid ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru yn ei gylch (erthygl 3(2) a (3)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 400 (Cy. 80)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025

*Gwnaed* *26 Mawrth 2025*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *31 Mawrth 2025*

*Yn dod i rym* *21 Ebrill 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 59(1), (2)(b) a (3)(a) a 74(1)(c) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 61Z(8) a (9), 62R a 333(5B) o'r Ddeddf honno(**3**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

(**1**) 1990 p. 8 ("Deddf 1990"). Diwygiwyd adran 59 gan adran 27 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) ("Deddf 2015") a pharagraffau 1 a 3 o Atodlen 4 iddi, ac adran 55 o'r Ddeddf honno a pharagraff 5 o Atodlen 7 iddi, a chan adran 1(2) o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013 (p. 27) a pharagraffau 1 a 4 o Atodlen 1 iddi. Mae diwygiadau i adran 74 nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); gweler y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf 1990 fel y'i hamnewidiwyd gan O.S. 2000/253. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi. Gweler hefyd adran 59(4) o Ddeddf 1990 sy'n darparu mai ystyr gorchymyn datblygu o ran Cymru yw gorchymyn datblygu sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru.

(**3**) Mewnosodwyd adran 61Z gan adran 17(1) a (2) o Ddeddf 2015. Mewnosodwyd adran 333(5B) gan adran 55 o Ddeddf 2015 a pharagraff 6(5) o Atodlen 7 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025.

(2) Daw i rym ar 21 Ebrill 2025.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Gorchymyn 2012" ("*the 2012 Order*") yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**1**);

ystyr "Gorchymyn 2016" ("*the 2016 Order*") yw Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016(**2**).

**Diwygio Gorchymyn 2012**

**2.**—(1) Mae Atodlen 4 i Orchymyn 2012 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y tabl, yn lle rhes (x) rhodder—

| | | |
|---|---|---|
| "(x) | Datblygiad—<br>(i) Ar dir o fewn Afonydd a'r Môr – Parth Llifogydd 2;<br>(ii) Ar dir o fewn Afonydd a'r Môr – Parth Llifogydd 3;<br>(iii) Ar dir o fewn Parthau Amddiffynedig TAN 15. | Corff Adnoddau Naturiol Cymru" |

(3) O dan y pennawd "Dehongli'r Tabl", yn lle paragraff (n) rhodder—

"(n) ym mharagraff (x)—

ystyr "Afonydd a'r Môr – Parth Llifogydd 2" ("*Rivers and Sea – Flood Zone 2*") yw ardal â llai nag 1 siawns mewn 100 o lifogydd o afonydd a llai nag 1 siawns mewn 200 o lifogydd o'r môr ond mwy nag 1 siawns mewn 1000 o lifogydd o afonydd a'r môr mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd;

(**1**) O.S. 2012/801 (Cy. 110).
(**2**) O.S. 2016/55 (Cy. 25).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ystyr "Afonydd a'r Môr – Parth Llifogydd 3" ("*Rivers and Sea – Flood Zone 3*") yw ardal â mwy nag 1 siawns mewn 100 o lifogydd o afonydd mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd, a mwy nag 1 siawns mewn 200 o lifogydd o'r môr mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd;

ystyr "Parthau Amddiffynedig TAN 15" ("*TAN 15 Defended Zones*") yw ardaloedd lle y mae seilwaith rheoli perygl llifogydd yn darparu safon ofynnol o ddiogelwch rhag llifogydd o 1 mewn 100 o afonydd ac 1 mewn 200 o'r môr (ynghyd â newid hinsawdd a bwrdd rhydd) fel y nodir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio a gyhoeddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru(**1**)".

**Diwygio Gorchymyn 2016**

**3.**—(1) Mae Atodlen 5 i Orchymyn 2016 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y tabl, yn lle rhes (u) rhodder—

| | | |
|---|---|---|
| "(u) | Datblygiad—<br>(i) Ar dir o fewn Afonydd a'r Môr – Parth Llifogydd 2;<br>(ii) Ar dir o fewn Afonydd a'r Môr – Parth Llifogydd 3;<br>iii) Ar dir o fewn Parthau Amddiffynedig TAN 15. | Corff Adnoddau Naturiol Cymru" |

(3) O dan y pennawd "Dehongli'r Tabl", yn lle paragraff (j) rhodder—

"ym mharagraff (u)—

(i) ystyr "Afonydd a'r Môr – Parth Llifogydd 2" ("*Rivers and Sea – Flood Zone 2*") yw ardal â llai nag 1 siawns mewn 100 o lifogydd o afonydd a llai nag 1 siawns mewn 200 o lifogydd o'r môr ond mwy nag 1 siawns mewn 1000 o lifogydd o afonydd a'r môr mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd;

(**1**) https://map-llifogydd-ar-gyfer-cynllunio.cyfoethnaturiol.cymru

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ii) ystyr "Afonydd a'r Môr – Parth Llifogydd 3" ("*Rivers and Sea – Flood Zone 3*") yw ardal lle y mae mwy nag 1 siawns mewn 100 o lifogydd o afonydd mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd, a mwy nag 1 siawns mewn 200 o lifogydd o'r môr mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd;

(iii) ystyr "Parthau Amddiffynedig TAN 15" ("*TAN 15 Defended Zones*") yw ardaloedd lle y mae seilwaith rheoli perygl llifogydd yn darparu safon ofynnol o ddiogelwch rhag llifogydd o 1 mewn 100 o afonydd ac 1 mewn 200 o'r môr (ynghyd â newid hinsawdd a bwrdd rhydd) fel y nodir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio a gyhoeddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru".

*Rebecca Evans*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
26 Mawrth 2025